20 Medi 2018

Bethan Sayed
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

cc. stephen.george@cynulliad.cymru

Annwyl Bethan

**Manylion Masnachol S4C i'r Pwyllgor**

Diolch am y cyfle i roi tystiolaeth i'r pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2018 fel rhan o'ch ymgynghoriad i adolygiad S4C. Yn ystod y sesiwn, fe wnaethom gynnig gyrru manylion ychwanegol i'r aelodau am waith masnachol S4C.

Fel sydd wedi ei adrodd yn ein hadroddiadau blynyddol, dros y blynyddoedd diweddar, roedd S4C yn gweithredu strategaeth fasnachol oedd yn rhoi'r pwyslais ar fanteisio ar gyfleoedd i ymestyn a hyrwyddo brand S4C a chreu incwm ychwanegol neu werth cyfalaf hir dymor i S4C. Fel soniodd Owen wrth y pwyllgor, mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu wedi asesiad o'r strategaeth flaenorol ond hefyd o ystyried argymhelliad yr adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd fis Mawrth 2018 sef y dylai llywodraeth [y DU] ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo cyfredol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chreu refeniw masnachol.

Mae S4C Masnachol – adain fasnachol S4C (sydd ar wahân i arian cyhoeddus S4C) - yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nôd o greu ffrwd incwm cynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C. Yn ddiweddar, mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys gwerthu hysbysebion a nawdd ar y gwasanaeth teledu ac ar safle Clic (gan weithio gydag asiant hysbysebu S4C, Sky Media), buddsoddi mewn cyd-gynhyrchu rhaglenni teledu, cynhyrchu deunyddiau sy'n hyrwyddo elfennau o'r gwasanaeth megis brand Cyw, buddsoddi mewn cronfeydd buddsoddi, a gwneud buddsoddiadau ariannol, fel arfer ar ffurf ecwiti, mewn cwmnïau a mentrau ym meysydd cynnwys a digidol. Nid yw S4C Masnachol yn medru derbyn unrhyw sybsidi gan S4C ac mae trefniadau hyd braich mewn lle i sicrhau hyn.

Caiff unrhyw elw o'n gweithgareddau masnachol ei dalu fel difidend i S4C, sy'n cyfrannu incwm ychwanegol i gynorthwyo gwasanaeth cyhoeddus S4C. Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £2m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae hwn yn gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu. Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y sianel yn y gorffennol.

Mae S4C Masnachol yn grŵp o bedwar is-gwmni i S4C:

•S4C Masnachol Cyf

•S4C Digital Media Limited

•S4C Rhyngwladol Cyf

•S4C2 Cyf.


Mae manylion S4C Masnachol yn adroddiad blynyddol S4C ac hefyd ar wefan Companies House.

Derbyniodd Llywodraeth San Steffan argymhelliad ar ddiwygio cylch gorchwyl S4C, ac mae Bwrdd yr Awdurdod eisoes yn trafod opsiynau gyda'r Llywodraeth er mwyn cytuno ar fframwaith addas ar gyfer gweithgareddau masnachol yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried sut i ymgorffori gweithgareddau masnachol S4C yn uniongyrchol o dan ofalaeth Bwrdd yr Awdurdod (a'r Bwrdd Unedol cysgodol) er mwyn sicrhau cyswllt agosach rhwng strategaeth gyffredinol S4C ac atebolrwydd am berfformiad y gweithgareddau masnachol.

I ategu y pwynt uchod cynharach, mae strategaeth fasnachol S4C yn cael ei hadolygu wedi asesiad diweddar ac o dan Brif Weithredwr newydd. Mae hyn yn cynnwys ail-ystyried pwrpas y gronfa fasnachol, ei pherthynas gyda gweithgareddau'r gwasanaeth cyhoeddus, y mathau o weithgareddau a buddsoddiadau sy'n briodol, proffil risg y mentrau a strwythur ac atebolrwydd am y gweithgareddau masnachol. Byddwn yn hapus i ddiweddaru'r pwyllgor maes o law.

Yn y cyfamser, gobeithiwn bod hyn yn ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn ystod y sesiwn. Fel atodiad, rydym yn cynnwys y cymal perthnasol o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac eglurhad hanesyddol o pam mae'r drefn bresennol wedi bod golygu nad ydi S4C wedi gallu gweithredu mor chwim ag y gallai

Yn gywir iawn,





**Huw Jones**

**Cadeirydd**

**Owen Evans**

**Prif Weithredwr**

**Deddf Cyfathrebiadau 2003**

206 Gweithgareddau eraill Awdurdod Cymru

(1) Mae’r gweithgareddau y gall Awdurdod Cymru ymgymryd â hwy yn cynnwys gweithgareddau sy’n ymddangos iddo —

(a) yn weithgareddau y mae’n briodol iddo ymgymryd â hwy mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaeth o ddarparu S4C, S4C Digidol neu wasanaeth y cymeradwyir ei ddarparu dan adran 205; ac

(b) yn gysylltiedig, mewn ffyrdd eraill heblaw’n ariannol, â gweithgareddau y mae’n ymgymryd â hwy i gyflawni’r swyddogaeth honno.

(2) Mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i Awdurdod Cymru ymgymryd â gweithgareddau a awdurdodir gan isadran (1) yn unig.

(3) Rhaid i gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol—

(a) gael ei gynnwys mewn gorchymyn a wnaed ganddo; a

(b) gall fod yn gymeradwyaeth gyffredinol yn ymwneud â disgrifiad o weithgareddau neu’n gymeradwyaeth benodol yn ymwneud â gweithgareddau penodol.

(4) Nid yw’r gweithgareddau y gellir eu hawdurdodi dan isadran (1)-

(a) yn cynnwys darparu gwasanaeth trwyddedadwy; ond

(b) mae’n cynnwys gweithgareddau i sicrhau y darperir y cyfryw wasanaeth gan un o gwmnïau S4C a gweithgareddau eraill yn gysylltiedig â’r cyfryw gwmni’n darparu’r cyfryw wasanaeth.

(5) Mae’r gweithgareddau y cyfeirir atynt yn isadran (4)(b) yn cynnwys-

(a) ffurfio cwmni i ddarparu gwasanaeth rhaglenni;

(b) cymryd camau er mwyn i gwmni sy’n darparu’r cyfryw wasanaeth ddod yn gwmni S4C.

(6) Ar gyfer is-baragraffau (2) a (3) paragraff 1 Atodlen 6 i Ddeddf 1990 (pŵer Awdurdod Cymru i wneud pethau sy’n gysylltiedig neu’n gydnaws â chyflawni ei swyddogaethau), disodlir hynny gan y canlynol—

“(2) Gall yr Awdurdod wneud unrhyw beth sy’n ymddangos yn gysylltiedig neu’n gydnaws â chyflawni ei swyddogaethau.

(3) Mae pwerau’r Awdurdod dan is-baragraff (2) yn cynnwys pŵer, i’r graddau y mae’n ymddangos iddo ei fod yn gysylltiedig neu’n gydnaws â chyflawni ei swyddogaethau i wneud hynny—

(a) i ymgymryd â gweithgareddau (heblaw’r rhai sydd wedi eu cynnwys yn ei ddyletswydd i gyflawni ei swyddogaethau dan adran 204 Deddf Cyfathrebiadau 2003) trwy gwmnïau S4C; a

(b) chyfranogi ag eraill wrth ymgymryd ag unrhyw gyfryw weithgaredd.”

(7) Yn yr adran hon, mae “gwasanaeth trwyddedadwy” yn golygu gwasanaeth a fyddai’n cael ei reoleiddio dan adran 211 neu 245 pe byddai’n cael ei ddarparu gan un o gwmnïau S4C.

(8) Ni fydd gan adran 57(1A)(b) ac (1B) Deddf 1990 (pŵer Awdurdod Cymru i sefydlu, caffael buddiant mewn cwmni cymwys neu gynorthwyo cwmni cymwys) rym mwyach.

**Nodyn cefndirol ar gylch gorchwyl masnachol S4C a'i phwerau i gynhyrchu incwm**

Holir S4C yn aml pam nad yw'n gwneud mwy i gynhyrchu incwm o'i chynnwys a'i harchif. Mae'r atebion i hyn a nifer o gwestiynau eraill ynghylch cylch gorchwyl masnachol S4C a'i phwerau i gynhyrchu incwm yn ymwneud yn rhannol â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r rhain yn cynnwys trosglwyddo hawliau rhaglenni i'r sector annibynnol, cylch gorchwyl i greu rhaglenni teledu yn hytrach na chynnwys cyfryngau perthnasol, yn ogystal â chyfyngiadau ar bwerau S4C i gynhyrchu incwm.

Dyma pam y galwodd S4C am ddiweddaru'r cylch gorchwyl ar gyfer ei gwasanaethau darlledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg a'i chylch gorchwyl masnachol i ddarparu gwasanaethau digidol newydd i fodloni disgwyliadau'r gynulleidfa ledled y DU a'r tu hwnt, er mwyn datblygu ei photensial i gynhyrchu incwm masnachol.

O 1996 i 2003, roedd y darpariaethau statudol a oedd yn llywodraethu gweithgareddau masnachol S4C a Channel 4 yn gymharol debyg ac yn galluogi S4C i fuddsoddi mewn ystod eang o weithgareddau masnachol er mwyn creu incwm a gwerth cyfalaf ychwanegol i S4C – a fyddai, yn ei dro, yn cael ei fuddsoddi yng ngwasanaethau cyhoeddus S4C.

Cyn Trosglwyddo i Ddigidol (digital switchover), roedd sianel analog S4C yn darlledu cynnwys S4C a Channel 4 ac yn cynhyrchu incwm hysbysebu o bron i £10m y flwyddyn ar gyfer S4C pan roedd ar ei anterth. Ar ôl Trosglwyddo i Ddigidol, nid oedd S4C yn cynnwys allbwn Channel 4 mwyach ac mae ei hincwm hysbysebu gros wedi disgyn ers hynny i tuag £1.5m y flwyddyn. Er mwyn helpu i wrthbwyso'r golled honno mewn incwm, rhoddwyd pwerau masnachol newydd i S4C, yn Neddf Darlledu 1996 yn wreiddiol, a ddiwygiwyd yn ddiweddarach yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003").

Mae'r pŵer diwygiedig yn a.206 Deddf 2003 yn galluogi S4C i ymgymryd â gweithgareddau sy'n 'gysylltiedig' (heblaw'n ariannol yn unig) â'i gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus ac yr ystyrir ei bod yn 'briodol' i S4C ymgymryd â nhw. Fodd bynnag, er mwyn i S4C arfer y pŵer hwn, mae angen cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ffurf Gorchymyn. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i offeryn statudol gael ei basio gan ddau Dŷ'r Senedd. Yn ymarferol, mae'r amserlen ar gyfer achub ar gyfleoedd masnachol (yn enwedig y rhai sy'n cynnwys technolegau aflonyddol neu fantais yr un sy'n symud yn gyntaf), ynghyd â natur gyfrinachol trafodaethau ynghylch trafodion masnachol, fel arfer yn anghydnaws â'r broses o gael Gorchymyn.

Mae S4C wedi ceisio Gorchymyn dan a.206 unwaith yn unig, yn 2007/08, proses a gymerodd bron pum mis i'w chwblhau. Oherwydd yr amserlen a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chael Gorchymyn, nid yw S4C wedi arfer ei phwerau masnachol ehangach dan a.206 ers hynny, a bu'n rhaid iddi ddibynnu ar y pwerau mwy cul sydd gan S4C fel corff cyhoeddus. Mae'r pwerau hyn wedi'u cyfyngu i ddarparu S4C fel gwasanaeth cyhoeddus ac ymgymryd ag unrhyw beth sy'n 'gysylltiedig neu'n gydnaws' â'i gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus. Nid yw Channel 4 na BBC Worldwide yn destun trefn lle mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Senedd gymeradwyo mathau penodol o fuddsoddiad a wneir â chyllid a gynhyrchwyd yn fasnachol.

Mae S4C yn trafod â llywodraeth y DU sut y gellir rhoi argymhelliad yr adolygiad annibynnol ar ei bwerau masnachol ar waith, ond credwn y gellir gwneud hyn trwy orchymyn penderfyniad negyddol.

**Hawliau**

Cyn 2004, roedd S4C yn berchen ar yr hawliau i raglenni yr oedd yn eu comisiynu o'r sector annibynnol ac yn gallu ymelwa arnynt ar ôl eu darlledu – trwy werthiannau, fideos ac ati. Yn 2004, yn unol â newidiadau i'r diwydiant yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, trosglwyddodd yr hawliau i'r cwmni annibynnol a oedd yn gwneud y rhaglenni, ac roedd S4C yn cael pecyn o hawliau ar gyfer pob rhaglen. Oni bai bod buddsoddiad penodol gan S4C, fel gyda Y Gwyll/Hinterland er enghraifft, y cwmni annibynnol sy'n cael unrhyw arian neu werthiannau y tu hwnt i'r pecyn hawliau sylfaenol a gafwyd gan S4C, ac mae gan S4C hawl i gyfran refeniw o 15% dan ei Thelerau Masnachu safonol. Mae sefyllfa S4C yn wahanol i'r BBC, lle gall BBC Worldwide ymelwa'n fasnachol ar raglenni a wneir gan BBC Studios.

Er na fyddai S4C yn ceisio adfer trosglwyddo perchenogaeth rhaglenni o'r sector annibynnol, mae S4C wedi annog cwmnïau i ymelwa ar eu cynnwys ac wedi gweithio i gynorthwyo'r sector i wneud hynny. Mae S4C a'r cynhyrchwyr yn rhagweithiol hefyd wrth gasglu cyllid o gynyrchiadau ar y cyd i wneud rhaglenni yn y lle cyntaf. Cafwyd tuag £20 miliwn o gyllid cyd-gynhyrchu i wneud rhaglenni sydd wedi ymddangos ar S4C dros y pump neu chwe blynedd diwethaf, gan gynnwys arian dosbarthu sydd wedi ei ddenu gan ddosbarthwyr.